Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Penodi Aelod y Bwrdd dros Gymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Dyddiad cau: 30 Ebrill 2023

Cynnwys

Tudalen

Gwneud cais **3-4**

Atodiad A: Penodi Aelod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd dros Gymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) **5-9**

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) **10**

Atodiad C: Y broses ddethol **12-13**

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Aelod y Bwrdd dros Gymru. Bydd yr Aelod newydd hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC). Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr Aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Aelod y Bwrdd dros Gymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru, ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen i chi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu gwneud, trwy eich cyfrif.

Unwaith i chi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen i chi uwchlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn bodloni pob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hirach na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Cyfeiriadau
Darparwch ddau ganolwr (cyflogwr a phersonol). Byddwn ond yn cysylltu â nhw yn achos ymgeiswyr llwyddiannus.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	30 Ebrill 2023
Llunio rhestr fer:	Wythnos yn dechrau 15 Mai 2023
Cyfweliadau:	Wythnos yn dechrau 26 Mehefin 2023

Datganiad am amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – a phobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall

anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog unigolion o gefndiroedd eang ac amrywiol i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu i analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau fel bod pob aelod o staff yn gallu perfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un sy'n anabl os yw eu cais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Drwy ''meini prawf gofynnol' rydym yn golygu bod rhaid ichi roi tystiolaeth inni yn eich cais sy'n dangos eich bod yn cyrraedd lefel y cymhwysedd ar gyfer y rôl yn gyffredinol ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu pobl anabl yn eu swydd a'u gyrfa. Os hoffech gyfweliad gwarantedig, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Manylion cyswllt:
I gael mwy o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael mwy o wybodaeth am rôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd a rôl Aelod Bwrdd Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru, cysylltwch ag Ann Stirling, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth yr ASB:

Ffôn: 07970 401448
E-bost: ann.stirling@food.gov.uk

Os oes angen mwy o gymorth arnoch i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael mwy o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

Atodiad A

Penodi Aelod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd dros Gymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC)

Disgrifiad o'r rôl

Mae Aelod Bwrdd yr ASB dros Gymru yn gyfrifol am y canlynol:

- sicrhau bod yr ASB yn cyflawni ei dyletswyddau yn unol â'r gofyniad i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd
- gosod ac atgyfnerthu gwerthoedd craidd yr ASB trwy ddatblygu a monitro amcanion, cynlluniau a pholisïau strategol
- cynrychioli'r ASB a'i gwerthoedd mewn cyfathrebiadau â rhanddeiliaid allweddol
- monitro perfformiad y Weithrediaeth o ran bodloni amcanion a thargedau cytunedig, gan gynnwys darparu gwasanaethau; gwelliant parhaus; perfformiad ariannol, a rheoli risg
- cynorthwyo â phenodi'r Prif Weithredwr
- chwarae rhan effeithiol yng nghyfarfodydd, trafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd, a gweithio i sicrhau llwyddiant ar y cyd
- cymryd rhan fel aelod neu Gadeirydd un neu fwy o Bwyllgorau'r Bwrdd: Busnes, ac Archwilio a Sicrwydd Risg
- gweithredu er budd y cyhoedd bob amser, nid fel cynrychiolydd ar ran buddiannau unrhyw sector penodol, a heb ystyried unrhyw fuddiannau personol
- cynghori Bwrdd yr ASB ar faterion sy'n ymwneud â Chymru
- ymrwymo hyd at 20 diwrnod y flwyddyn i'r ASB a theithio i gyfarfodydd ledled y wlad. Bydd modd hawlio treuliau ar gyfer hyn. Yn ogystal, disgwylir i aelodau'r Bwrdd ddarllen yn eang er mwyn datblygu sgiliau personol a sicrhau effeithiolrwydd yn y rôl.

Mae aelodau'r Bwrdd yn cael cyngor a chefnogaeth gan y Weithrediaeth mewn perthynas â'u dyletswyddau a rhoddir gwybodaeth gefndirol iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau. Mae ysgrifenyddiaeth benodol i gynorthwyo'r Bwrdd. Nid yw'r Bwrdd yn defnyddio papur yn ei gyfarfodydd.

Yn ogystal â chyfrifoldebau aelod o'r Bwrdd, dyma gyfrifoldebau Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru:

- gwasanaethu fel aelod WFAC a chadeirio cyfarfodydd mewn modd sy'n hwyluso cyfraniad effeithiol gan aelodau'r Pwyllgor trwy greu amgylchedd lle maent yn gallu rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd
- cynllunio busnes y cyfarfodydd Pwyllgor gyda Chyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru, gan gynnwys codi materion yn rhagweithiol i'r Pwyllgor eu trafod
- arwain WFAC ar ddarparu cyngor neu wybodaeth i'r ASB am faterion yn gysylltiedig â'i swyddogaethau, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i Gymru
- annog WFAC i ystyried llais defnyddwyr Cymru a chryfhau persbectif y defnyddiwr, mewn perthynas â materion allweddol y mae Bwrdd yr ASB yn eu hystyried
- cefnogi'r ASB wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru a meithrin y perthnasoedd os oes angen er mwyn i'r Pwyllgor weithredu'n effeithiol
- cynnal gwerthusiad o berfformiad aelodau'r Pwyllgor unwaith bob tymor
- gweithredu er budd y cyhoedd bob amser, nid fel cynrychiolydd ar ran buddiannau unrhyw sector penodol, a heb ystyried unrhyw fuddiannau personol
- rhoi tua 15 diwrnod y flwyddyn i'r ASB yn ogystal ag unrhyw ymrwymiad amser fel Aelod Bwrdd, a theithio i gyfarfodydd ledled Cymru.

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid i chi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o feini prawf hanfodol y rôl.

Meini Prawf Hanfodol

- Sgiliau gwneud penderfyniadau cryf, a'r gallu i bwyso a mesur tystiolaeth gymhleth ac egluro'r sail ar gyfer penderfyniad.
- Profiad o weithio gyda, neu ar ran y cyhoedd a'r gallu i gynrychioli buddiannau defnyddwyr
- Bod â meddwl a phrofiad strategol a'r gallu i helpu i lunio cyfeiriad strategol yr ASB
- Y gallu i gyflawni newid sylweddol a gweithredu ar draws rhwydweithiau cymhleth
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf, gan gynnwys y gallu i hyrwyddo amrywiaeth ac ymdrin yn hyderus â sefyllfaoedd anodd mewn modd sensitif
- Tystiolaeth o'r gallu i gadeirio cyfarfodydd sefydliad cenedlaethol arwyddocaol, a chefnogi a chynnal bwrdd effeithiol gyda pherthnasoedd cryf ag aelodau'r Bwrdd.

Meini Prawf Dymunol

Er mwyn sicrhau Bwrdd cytbwys, yn ddelfrydol bydd Aelodau newydd yn gallu dod â sgiliau a phrofiad un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- Profiad yn y sector bwyd (cynhyrchu cynradd, gweithgynhyrchu, manwerthu)
- Arbenigedd mewn diogelwch a safonau yn y diwydiant bwyd
- Profiad mewn llywodraeth leol

- Dealltwriaeth o faes iechyd y cyhoedd (neu'r amgylchedd) mewn perthynas â bwyd
- Uwch wyddonydd sy'n gweithio mewn maes sy'n ymwneud yn agos â phortffolio'r ASB
- Arbenigedd (neu ddealltwriaeth) mewn arloesi sy'n berthnasol i gynhyrchion/prosesau bwyd neu lwybrau dosbarthu i'r defnyddiwr
- Dealltwriaeth (neu brofiad) o gorff rheoleiddio'r llywodraeth
- Sgiliau Cymraeg

Sgiliau Cymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu galluoedd dwyieithog mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ac yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhestr ganlynol o ofynion iaith yn cynrychioli asesiad gwrthrychol gan y corff recriwtio o'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen i ymgymryd â dyletswyddau'r swydd benodol hon.

- Darllen – Yn gallu darllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol a'u deall
- Ysgrifenedig – Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd
- Deall – Yn gallu deall rhannau o sgwrs sylfaenol
- Siarad – Yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg

Yn ogystal â'r meini prawf uchod, bydd angen i Gadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ddangos tystiolaeth eu bod yn gallu:

- cadeirio cyfarfodydd Bwrdd ar lefel uchel mewn unrhyw sector
- deall buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, yng Nghymru
- peidio â chynhyrfu yn wyneb adfyd a gwrthwynebiad

Ffeithiau pwysig am y swydd

Lleoliad:	Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd o amgylch Lloegr, ond o leiaf unwaith y flwyddyn cynhelir cyfarfod yng Nghymru neu Ogledd Iwerddon. Cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd WFAC yn swyddfa'r ASB yng Nghaerdydd. Weithiau cynhelir cyfarfodydd Pwyllgor mewn mannau eraill yng Nghymru.
Ymrwymiad Amser:	20 diwrnod y flwyddyn yn ogystal â 15 diwrnod y flwyddyn ar gyfer WFAC.
Hyd y penodiad:	Gweinidogion Cymru sy'n pennu hyd y penodiad, a fydd hyd at 3 blynedd i ddechrau.
Tâl cydnabyddiaeth:	Rhoddir cyfanswm o £14,000 y flwyddyn fel tâl cydnabyddiaeth am weithio tua 35 diwrnod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys y canlynol: • Bydd Aelod Anweithredol dros Gymru yn cael tâl cydnabyddiaeth o £8,000 y

flwyddyn am weithio tua 20 diwrnod y flwyddyn.

- Mae Cadeirydd WFAC yn cael tâl cydnabyddiaeth o £6,000 y flwyddyn am weithio tua 15 diwrnod y flwyddyn.

- Mae'r tâl cydnabyddiaeth yn drethadwy, ac yn ddarostyngedig i gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Bydd y ddau beth hyn yn cael eu tynnu yn y ffynhonnell o dan TWE cyn i chi gael eich talu. Nid oes modd hawlio pensiwn ar dâl cydnabyddiaeth. Nid yw aelodau'r Bwrdd yn cael eu cyflogi gan yr ASB.

- Gallwch hawlio costau teithio a chynhaliaeth, sy'n codi fel rhan briodol ac angenrheidiol o gyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod Anweithredol o'r ASB, yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth a chyfraddau'r ASB. Gellir cael copi o'r polisi a'r cyfraddau gan yr ASB.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?
O dan statud, mae Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 yn gymwys. Gellir symud aelodau'r Bwrdd o'u swydd os ydynt wedi'u datgan yn fethdalwr, os fe'u difeddiannwyd o'u hystâd, neu os ydynt wedi gwneud trefniant gyda'u credydwyr.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 tra bod yn aelod o'r ASB. Gorchymyn (Anghymhwyso) Senedd Cymru 2020 (legislation.gov.uk).

Gwrthdaro buddiannau
Wrth wneud cais, gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'r rôl a'r cyfrifoldebau fel Aelod o'r ASB, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn yr ASB.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl i chi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy
Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n llwyddo yn y sifft i gael cyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith efallai pethau eraill, chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau i chi yn y cyfweliad am ffrwyth y gwiriadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Mae'r ddogfen hon ar gael drwy:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Rhaid i weision sifil beidio â chamddefnyddio eu safle swyddogol na gwybodaeth a gafwyd yn ystod eu dyletswyddau swyddogol i hybu eu buddiannau preifat neu fuddiannau pobl eraill. Gall gwrthdaro buddiannau ddeillio o fuddiannau ariannol, ac yn ehangach o ymwneud swyddogol ag unigolion sy'n rhannu buddiannau preifat gwas sifil, neu benderfyniadau mewn perthynas â hwy (er enghraifft saer rhydd, aelodaeth o gymdeithasau, clybiau a sefydliadau eraill, a theulu). Pan fo gwrthdaro buddiannau yn codi, rhaid i weision sifil ddatgan y buddiannau hynny i uwch reolwyr, fel y gall uwch reolwyr benderfynu ar y ffordd orau i symud ymlaen.

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)

Cefndir

Rôl statudol yr ASB yw diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2000, mae wedi creu argraff fel math newydd o awdurdod cyhoeddus – un annibynnol, rhagweithiol, egnïol, agored ynghylch polisi a gonest ynghylch peryglon.

Arweinir yr ASB gan Fwrdd o hyd at o 12 aelod anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd (yn ymarferol, ers sefydlu Safonau Bwyd yr Alban yn 2014, mae 10 aelod wedi bod ar y Bwrdd, gan fod dwy o'r rolau hyn ar y bwrdd wedi'u neilltuo i benodiadau gan lywodraeth yr Alban). Ar y cyd, mae aelodau'r Bwrdd yn rhannu cyfrifoldeb dros yr holl ASB.

Caiff y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithredu ar y cyd â'r Gweinidogion priodol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Caiff un aelod o'r Bwrdd ei benodi gan Weinidogion Cymru, ac un aelod gan y Gweinidog dros Iechyd yng Ngogledd Iwerddon. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ceir Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd sy'n gweithredu fel llwybr ar gyfer rhannu â'r Bwrdd unrhyw wybodaeth a chyngor sy'n berthnasol i fuddiannau'r ASB yn eu gwledydd unigol. Mae aelod o'r Bwrdd yn cadeirio pob un o'r Pwyllgorau hyn. Caiff yr aelodau o Fwrdd yr ASB sy'n weddill eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r awdurdodau priodol yn ymgynghori â'i gilydd cyn gwneud y penodiadau hyn. Nid oes unrhyw gymwysterau daearyddol penodol ar gyfer y rolau hyn.

Mae cylch gwaith yr ASB yn cynnwys rheoliadau a pholisi ym maes diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid ar draws yr holl gadwyn fwyd (o'r 'fferm i'r fforc'). Mae'n gweithio i ddiogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch bwyd a thrwy gyflwyno gwybodaeth onest ac eglur. Mae patrwm cymhleth o gyfrifoldebau dros bolisi a chyflawni diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, maeth, a labelu a chyfansoddiad bwyd nad yw'n ymwneud â diogelwch, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu bod gan yr ASB gylch gwaith ychydig yn wahanol ym mhob gwlad.

Mae'r ASB hefyd yn awdurdod gorfodi. Mae rhai o staff yr ASB yn gweithio mewn ffatrïoedd cig i wirio bod gofynion y rheoliadau, gan gynnwys safonau lles anifeiliaid, yn cael eu bodloni. Mae'r ASB yn cydweithio'n agos â Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Swyddogion Safonau Masnach mewn 387 o awdurdodau lleol, a hynny er mwyn sicrhau bod bwyd o'r 600,000 a mwy o safleoedd bwyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ddiogel ac wedi'i labelu'n gywir.

Mae'r Asiantaeth yn gweithio'n agos ag amrywiaeth eang iawn o grwpiau rhanddeiliaid i wella diogelwch bwyd ar bob cam o'r gadwyn fwyd. Mae'r ASB wedi cael cydnabyddiaeth am adfer ymddiriedaeth defnyddwyr y DU yn y ffordd y caiff diogelwch bwyd ei reoleiddio.

Darllen pellach:
Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr ASB ar gyfer 2021/22 ar gael drwy:

https://www.food.gov.uk/document/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-yr-asiantaeth-safonau-bwyd-yng-nghymru-2021-22

Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2022-27:
https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/ein-strategaeth

Ein Bwyd 2021: Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU
Rhagair | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Caiff y panel dewis ei gadeirio gan yr Athro Susan Jebb, Cadeirydd Bwrdd yr ASB a bydd hefyd yn cynnwys Anthony Harbinson (Bwrdd yr ASB), Peter Jones (Llywodraeth Cymru) ac Andrew Jones (Iechyd Cyhoeddus Cymru) fel Aelod Panel Annibynnol.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn disgwyl y bydd y panel wedi penderfynu ym mis Mai 2023 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Mehefin 2023. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau yng Nghaerdydd.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, **a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd am gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosib i chi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, gwnawn ymdrechu i aildrefnu, ond efallai na fydd hyn yn bosib oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Byddwch yn cael e-bost gan y system ceisiadau Llywodraeth Cymru i roi gwybod i chi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.
Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni meini prawf** y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu'r cynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael eu diweddaru o ran unrhyw gynnydd.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Aelod o'r Asiantaeth Safonau Bwyd, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn y cyfweliad, cewch eich hysbysu drwy system geisiadau Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod gwneud cais am rolau yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Ar gyfer ymholiadau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosib a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych chi unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.
Yn ogystal, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Office of the Commissioner for Public Appointments
G/08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.